

**CABINET**

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Mawrth, 20 Rhagfyr 2005 am 10.00 a.m.

**PRESENNOL**

Y Cynghorwyr S A Davies, Aelod Arweiniol dros Fusnes a Chyfathrebu; P A Dobb, Aelod Arweiniol dros Iechyd a Lles; E C Edwards, Aelod Arweiniol dros Gymunedau; R W Hughes, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Adfywio; M A German, Aelod Arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc; P J Marfleet, Aelod Arweiniol dros Gyllid a Phersonél; D Owens, Aelod Arweiniol dros Ddysgu Gydol Oes; S Roberts, Aelod Arweiniol dros Hyrwyddo Sir Ddinbych; J Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Reoli Asedau ac Eiddo ac E W Williams, Aelod Arweiniol dros yr Amgylchedd.

Arsylwyr: Y Cynghorwyr M LI Davies; G C Evans; H H Evans; K N Hawkins; T K Hodgson; C L Hughes; N Hugh Jones; G M Kensler, J A Smith; S Thomas a R LI Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr; Y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau, Clerc y Sir a'r Rheolwr Ariannol.

**YMDDIHEURIADAU**

H W Griffiths, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes.

**CYHOEDDIAD**

Diolchodd y Cynghorydd R W Hughes, ar ran yr Aelodau, i Gareth Watson o'r adran Cysylltiadau Cyhoeddus am ei waith ar ran yr awdurdod a'r mentrau newydd roedd wedi eu cyflwyno megis sesiynau Holi'r Cabinet a'r golofn 'Cabinet Watch' mewn papurau newydd lleol. Dymunodd yn dda iddo yn ei swydd newydd fel Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R W Hughes at y cyhoeddiad ynghylch Cronfeydd Strwythurol Ewrop a oedd yn golygu y byddai Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn elwa o £1.3 biliwn o 2007 ymlaen. Roedd yn bwysig bod Sir Ddinbych yn cynllunio prosiectau ar gyfer y rhaglen nesaf ac yn gweithio'n strategol, gan ystyried y Cynllun Datblygu Lleol a'r broses o lunio Gweledigaeth i'r sir.

Cyfeiriodd y Cynghorydd S Roberts at y grant gwerth £3.1m a dderbyniwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru tuag at brosiect Canolfan Grefftau Rhuthun.

Hysbysodd y Prif Weithredwr yr Aelodau fod Strategaeth Tai Lleol yr Awdurdod wedi ei nodi fel esiampl o arfer orau gan y Sefydliad Tai Siartredig.

## 1 **MATERION BRYS**

Eitem 12 Rhan II - Prestatyn: Maes Parcio Tafarn Offa

## 2 **COFNODION Y CABINET**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2005.

Cyhoeddiad - dylid diwygio yr ail baragraff i nodi - "dywedodd y Cynghorydd D Owens, yn ôl ystadegau diweddar, Tîm Cyllid Myfyrwyr y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes sydd ar y brig yng Nghymru o ran prosesu ceisiadau am fenthyciadau myfyrwyr o fewn yr amser penodedig, ac yn y pedwerydd safle drwy Gymru a Lloegr".

Eitem 3 Strategaeth Ryngwladol Sir Ddinbych: dywedodd y Cynghorydd P J Marfleet nad oedd yn cefnogi'r strategaeth ac y dylid diwygio brawddeg gyntaf yr ail baragraff i nodi "...Tra'n cefnogi'r cysyniad o ddenu cyllid...".

Cyfeiriodd y Cynghorydd Marfleet at yr amod ynghlwm â'r Penderfyniad Dirprwyedig yr oedd wedi cytuno arno ynghylch ymweliad rhai Aelodau a swyddogion i Wlad Pwyl, sef eu bod yn cyflwyno asesiad llawn o fudd yr ymweliad o fewn 14 diwrnod o ddychwelyd, a darparu rhestr ddrafft o'r holl ymweliadau rhyngwladol yn yr arfaeth yn ystod chwe mis cyntaf 2006 i'r Aelodau erbyn 6 Ionawr 2006. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Datblygu na fyddai Fforwm Rhyngwladol Sir Ddinbych yn cyfarfod eto tan ar ôl 06.01.2006 ac felly ni fyddai modd darparu rhestr lawn. Fodd bynnag, byddai'n darparu rhestr ddarpariaethol i'r Aelodau erbyn y dyddiad hynny.

***PENDERFYNWYD***, yn amodol ar yr uchod, gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2005 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.

## 3 **ADOLYGIAD GOFAL EILAIDD**

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan Derek Griffin, Cyfarwyddwr Rhanbarthol Gogledd Cymru, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Darparwyd copi o'r cyflwyniad i'r holl Aelodau.

Amlinellodd Mr Griffin y strategaeth 10 mlynedd Cynllun Oes yn ymwneud â gwella iechyd a gwella gwasanaethau iechyd, yn cynnwys adolygiad o wasanaethau gofal eilaidd. Roedd Adolygiad Wanless wedi datgan yn glir fod y trefniadau gwasanaethau iechyd presennol yn anghynaliadwy. Roedd yr adolygiad Gofal Eilaidd yn cwmpasu'r ysbytai mwyaf - faint fyddai'n ofynnol a'u lleoliad. Byddai'r weledigaeth a'r targedau i'r dyfodol yn cael eu cynnwys, a gobeithid ymhen 10 mlynedd mai uchafswm o 26 wythnos fyddai rhwng y cyswllt cyntaf a dechrau triniaeth. Byddai cyfran uwch o bobl yn cael eu trin un ai gartref neu mewn Canolfannau Iechyd Cymunedol ac roedd angen

gwerth am arian a gwell gwasanaethau i gleifion. Byddai tri mis o ymgynghori â'r cyhoedd yn dechrau ddiwedd Mawrth 2006, yn dilyn argymhellion y Bwrdd Prosiect yn sgîl y drafft cyntaf.

Diolchodd y Cynghorydd P A Dobb i Mr Griffin am ei gyflwyniad diddorol. Fel yr Aelod Arweiniol dros lechyd a Lles roedd hi'n rhan o'r Bwrdd lechyd Lleol ac yn derbyn y bwletinau a ddarperir gan y Gwasanaeth ond yn parhau i deimlo nad oedd yn rhan o'r hyn oedd yn cael ei gynnig. Pwysleisiodd bwysigrwydd cynnwys yr Awdurdod Lleol o ddechrau unrhyw adolygiad a gofynnodd am ymrwymiad y byddai Sir Ddinbych yn cael ei chynnwys yn yr hyn roedd y Cynulliad Cenedlaethol yn ceisio ei gyflawni yng Ngogledd Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd P J Marfleet fod y cyflwyniad wedi bod yn ddiddorol iddo yntau. Pwysleisiodd fod angen manteisio ar y cyfleoedd i rannu profiadau ac adnoddau ac osgoi dyblygu gwaith. Dywedodd bod y cyfrifoldeb am gyflenwi gwasanaeth yn disgyn ar yr Awdurdod Lleol ac nid y Bwrdd lechyd Lleol pan fo pobl yn dychwelyd i'r gymuned gydag anghenion gofal, ac felly os oedd darparu'r gwasanaeth yn cael ei symud i'r Awdurdod Lleol dylai'r cyllid ddilyn. Cadarnhaodd Mr Griffin na ellid symud unrhyw arian a ddarperir ar gyfer iechyd i faes gofal cymdeithasol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd E W Williams, dywedodd Mr Griffin nad oedd yr Adolygiad yn cwmpasu materion gweithredol ac eithio y byddai tybiaethau fel gofynion effeithlonrwydd a chynhyrchedd yn cael eu cynnwys i sicrhau darpariaeth system gadarn yn y dyfodol. Roedd yn bwysig bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn cynghori am y ffordd orau o gyflenwi gwasanaethau effeithiol ac effeithlon.

Dywedodd Mr Griffin y gwnaed gwir ymdrech i ennyn diddordeb amrediad o bobl mor eang â phosibl a bod Aelod a swyddog o bob Awdurdod Lleol wedi ei gynnwys tra bo'r Byrddau lechyd Lleol yn cael eu hysbysu am y datblygiadau diweddaraf gan eu Prif Weithredwyr.

Mynegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai ei phryder ynghylch lefel yr ymgysylltu. Nid oedd camau cynnar yr adolygiad wedi manylu am y goblygiadau i wasanaethau, megis tai priodol ac addas yn y gymuned. Roedd yn bwysig trafod y gyllideb yn drwyadl, yn enwedig unrhyw risgiau i'r Awdurdod Lleol wrth ddarparu gofal yn y gymuned. Drwy weithio gyda'n gilydd o'r camau dechreuol gellid darparu gwella darpariaeth yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at Adolygiad Beecham. Hefyd trafododd gyfuno cyllidebau neu roi cyllideb i'r Awdurdod Lleol i ddarparu pecyn o wasanaethau. Dywedodd fod angen trafodaeth am ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd. Byddai ymgynghori â'r cyhoedd yn digwydd pan fyddai'r cynigion wedi eu llunio.

Gofynnodd y Cynghorydd S A Davies i Mr Griffin hysbysu'r Gweinidog na fyddai'r Awdurdod Lleol yn gallu talu i ddarparu'r gwasanaeth petai'r ysbytai

llai yn cau. Dywedodd Mr Griffin fod y gyllideb iechyd ar gyfer iechyd yn unig a bod y gyllideb gofal cymdeithasol ar gyfer y ddarpariaeth honno. Roedd maes niwlog yr oedd angen eglurhad clir arno.

Diolchodd y Cynghorydd R W Hughes i Mr Griffin am ei gyflwyniad.

**PENDERFYNWYD** fod y Cabinet yn nodi'r cyflwyniad.

#### **4 STRATEGAETH ADFYWIO GORLLEWIN Y RHYL**

Cyflwynodd y Cynghorydd R W Hughes yr adroddiad i Aelodau gymeradwyo caffael eiddo yn 50-57 Rhodfa'r Gorllewin; 1a John Street a 2 garej yn y lôn gefn, Y Rhyl, drwy un ai brynu gwirfoddol neu brynu gorfodol gyda'n partner, Awdurdod Datblygu Cymru; a chadarnhau eu cefnogaeth i Awdurdod Datblygu Cymru gaffael 50-57 Rhodfa'r Gorllewin, 1a John Street, Y Rhyl a'r 2 garej yn y lôn gefn drwy ddefnyddio ei Bwerau Prynu Gorfodol lle bo angen.

Dywedodd y Cynghorydd P A Dobb ei bod yn falch gyda'r ddarpariaeth parcio ar y safle.

**PENDERFYNWYD** fod y Cabinet:

[a] yn cymeradwyo bwrw ymlaen â rhan gyntaf Strategaeth Adfywio Gorllewin y Rhyl drwy gefnogi caffael 50-57 Rhodfa'r Gorllewin, 1a John Street, a'r 2 garej yn y lôn gefn, gan Awdurdod Datblygu Cymru

[b] yn cadarnhau ei gefnogaeth i Awdurdod Datblygu Cymru i ddefnyddio ei Bwerau Prynu Gorfodol i fwrw ymlaen â chaffael yr eiddo, lle bo angen.

#### **5 CYLLIDEB REFENIW 2005-2006**

Cyflwynodd y Cynghorydd P J Marfleet yr adroddiad i'r Aelodau nodi ffiygrau perfformiad y gyllideb yn y flwyddyn ariannol bresennol yn unol â'r manylion yn yr atodiadau i'r adroddiad, ac ystyried unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol i ddod â gwariant arfaethedig Cyfarwyddiaethau yn unol â'r gyllideb sydd ar gael. Roedd pob Cyfarwyddiaeth wedi gwneud cryn ymdrech i gyfrannu i'r tanwariant potensial gwerth £243k. Roedd sefyllfa cyllideb ddirprwyedig ysgolion yn dangos pwysau a'r defnydd o £361k o falansau cronrus. Roedd rhagfynegiad tanwariant y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai yn £199k yn awr oherwydd gostyngiad mewn costau staffio.

Y pwysau eraill sy'n parhau yw'r Adolygiad Tâl Statws Sengl, ailbrisiu bandiau Treth y Cyngor, cludiant ysgol, iechyd a diogelwch a goblygiadau posibl tywydd gwael difrifol.

Gan gyfeirio at Gyllideb Ddirprwyedig Ysgolion dywedodd y Cynghorydd Marfleet fod cyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd wedi eu cymryd a gofynnodd am ddefnyddio'r rhain i gynnal peth o'r pwysau a nodwyd gan

ysgolion petai modd. Hefyd gofynnodd i'r Tîm Gweithredu Corfforaethol ystyried cyfleoedd i gyflwyno ceisiadau am yr arian tanwariant.

**PENDERFYNWYD** fod y Cabinet yn nodi'r ffigyrau yn yr Atodiadau ac yn derbyn yr adroddiad.

## 6 CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI 2005 / 2006

Cyflwynodd y Cynghorydd P A Dobb yr adroddiad i'r Aelodau nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a ragfynegir o ran y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2005-2006, a oedd yn dangos tanwariant net potensial o £248k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Roedd hyn yn is nag mewn adroddiadau blaenorol oherwydd costau staffio ychwanegol yn ystod cyfnod absenoldeb mamolaeth a defnyddio staff asiantaeth, er enghraifft, costau ychwanegol ar systemau gwres canolog a chynnydd mewn costau dyledion. Fodd bynnag, roedd y rhagfynegiad incwm rhent yn uwch na'r amcangyfrif ar £148k.

**PENDERFYNWYD** fod y Cabinet yn nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a ragfynegir o ran y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2005-2006.

## 7 ADRODDIAD CYLLIDEB REFENIW TAIR BLYNEDD 2006-2007 I 2008-2009

Cyflwynodd y Cynghorydd P J Marfleet yr adroddiad i'r Aelodau

- 1.1 i nodi cynigion cyfredol y gyllideb fel a amlinellwyd yn atodiadau 1 i 4
- 1.2 i geisio barn y Pwyllgorau Craffu am y ceisiadau cyllideb a'r mesurau effeithlonrwydd arfaethedig yn gysylltiedig â'u Cyfarwyddiaeth, ac i'r pwyllgor gynghori'r Cabinet am unrhyw newidiadau arfaethedig, gan nodi'r blaenoriaethau
- 1.3 gofyn i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau ystyried yr holl gynigion
- 1.4 ailystyried y gyllideb yn ei gyfarfod ar 31.01.2006 gyda'r nod o lunio ei argymhellion i'r Cyngor.

Setliad terfynol Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran refeniw 2006/2007 oedd £119.367m (cynnydd o £280k o'i gymharu â'r setliad darpariaethol a chynnydd o 5.9% o'i gymharu â'r setliad eleni). Darparwyd arian newydd gwerth £2.2m (2%) yn bennaf o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer yr henoed.

Dywedodd y Cynghorydd Marfleet ei bod yn bosibl llunio cyllideb wedi ei seilio ar gynnydd 0% yn Nhreth y Cyngor. Fodd bynnag, byddai'r dewisiadau a ystyriwyd gan y Cabinet yn cael eu hystyried ymhellach gan y Pwyllgorau Craffu ac yna'r penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn. Roedd rhai meysydd yn parhau yn destun gohebiaeth rhwng yr Awdurdod a'r Gweinidog ynghylch nifer y boblogaeth a'r grant amddifadedd, ond mae unrhyw gynnydd yn annhebygol o effeithio ar y flwyddyn ariannol nesaf.

Byddai £320k ar gael i'w fuddsoddi mewn meysydd gwasanaeth a flaenoriaethwyd petai Treth y Cyngor yn parhau ar ei lefel bresennol. Byddai hyd yn oed cynnydd o 0.5% yn Nhreth y Cyngor yn sicrhau £158k a fyddai'n

galluogi sicrhau trefniant benthycu darbodus sylweddol ar gyfer prosiectau cyfalaf.

Mae'r cynigion diweddaraf yn darparu gwerth £470k o adnoddau ychwanegol i ysgolion i ymdrin â'r angen i wella canlyniadau arholiadau. Gofynnodd y Cynghorydd Marfleet i'r Aelod Arweiniol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes ystyried cynigion i darparu anghenion penodol mewn Addysg a gofynnodd am ddarparu'r data ar sail unigol.

Atgoffodd y Cynghorydd Marfleet yr Aelodau mai Cyngor Sir Ddinbych oedd â'r gyfradd Treth y Cyngor ail uchaf yng Nghymru ac eleni gellid defnyddio'r sefyllfa i leihau'r bwlch, a fyddai'n cynorthwyo trigolion ar incwm sefydlog. Dywedodd ei fod yn ffafrio cynnydd o 1.5% yn lefel Treth y Cyngor yn bersonol, a fyddai yn debyg i'r hyn y disgwylir i Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru ei benderfynu.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd C L Hughes dywedodd y Cynghorydd Marfleet fod iechyd a diogelwch wedi ei gynnwys yn ffigyrau'r gyllideb.

Dywedodd y Cynghorydd P A Dobb ei bod yn ffafrio cynnydd o 1.5% yn Nhreth y Cyngor ac na ddylid methu'r cyfle i wella prosiectau cyfalaf. Cyfeiriodd at baragraff 2.14 yr adroddiad ac atgoffodd yr Aelodau fod ffyrdd gwledig wedi eu dynodi fel un o flaenoriaethau'r Cyngor a gofynnodd am sicrhad y byddai'r flaenoriaeth hon yn cael sylw'n gyntaf.

Bu'r Aelodau'n trafod y gofynion iechyd a diogelwch dros y 12 mis nesaf, ynghyd â blaenoriaethau'r Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd E W Williams ei fod yn cefnogi'r adroddiad sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgorau Craffu. Roedd yn bwysig gwneud arbedion effeithlonrwydd effeithlon, ond mynegodd bryder y byddai peidio â glanhau gwlliau yn arwain at broblemau eraill a bod angen cymorth a chefnogaeth ar gymunedau gwledig. Teimlai y byddai cynnydd mor isel â phosibl yn dderbyniol gan y cyhoedd, yn agos at y gyfradd chwyddiant. Roedd ffigyrau'r boblogaeth symudol yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymu a phetaent yn cael eu cynnwys yn y dyfodol byddai hyn hefyd yn effeithio ar y gyllideb.

Manteisiodd y Cynghorydd J Thompson Hill ar y cyfle i ddiolch i'r holl staff a oedd wedi gweithio'n galed i sicrhau'r ffigyrau hyn. Roedd o blaid cynnydd o 1.5%. Atgoffodd yr Aelodau fod adroddiad ar iechyd a diogelwch wedi ei ystyried yn flaenorol a dywedodd y byddai'r arolygon cyflwr adeiladau yn cael eu diweddarau er mwyn gwneud asesiad llawn o'r cyfrifoldebau.

Diolchodd y Cynghorydd S A Davies i'r Aelodau a'r staff am eu gwaith hefyd, a dywedodd ei fod yn cefnogi cynnydd o 1.5% yn Nhreth y Cyngor.

Atgoffodd y Cynghorydd R LI Williams yr Aelodau y byddai ailfandio eiddo yn cael effaith ddifrifol, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau am eu sylwadau caredig ynghylch y gwaith caled a gyflawnwyd gan y staff. Mewn ymateb i ymholiad cynharach, cadarnhaodd fod cynghorau tref yn cael eu cynnwys gyda'r cynghorau cymuned. Dywedodd fod rhaid mynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch. Er nad yw'r Awdurdod Tân yn gosod praesept mae'r Awdurdod yn parhau i gyfrannu, sy'n dal i gael effaith ar Dreth y Cyngor, a nodwyd manylion yn atodiad 4 i'r adroddiad.

Croesawodd y Cynghorydd S Roberts y sefyllfa roedd yr Awdurdod wedi llwyddo i'w chyrraedd a mynegodd ei gwerthfawrogiad o waith y swyddogion. Gofynnodd i'r Pwyllgorau Craffu ystyried yr adroddiad yn fanwl.

**PENDERFYNWYD** fod y Cabinet

- 1 yn nodi cynigion cyfredol y gyllideb fel a amlinellwyd yn atodiadau 1 i 4
- 2 yn ceisio barn y Pwyllgorau Craffu am y ceisiadau cyllideb a'r mesurau effeithlonrwydd arfaethedig yn gysylltiedig â'u Cyfarwyddiaeth, ac i'r pwyllgor gynghori'r Cabinet am unrhyw newidiadau arfaethedig, gan nodi'r blaenoriaethau
- 3 yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau ystyried yr holl gynigion
- 4 yn ailystyried y gyllideb yn ei gyfarfod ar 31.01.2006 gyda'r nod o lunio ei argymhellion i'r Cyngor.

Ar y pwynt yma (hanner dydd) gohiriwyd y cyfarfod am 10 munud i roi cyfle i'r Aelodau gael egwyl a phaned.

## **8 BLAEN RAGLEN WAITH Y CABINET**

Cyflwynodd y Cynghorydd S A Davies Flaen Raglen Waith y Cabinet.

**PENDERFYNWYD** fod y Cabinet yn nodi Blaen Raglen Waith y Cabinet.

## **9 EITEMAU BRYG**

Nid oedd unrhyw Eitemau Bryg yn Rhan I.

## **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes a ganlyn ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig iddynt, fel a ddiffinnir ym mharagraffau 1 ac 8 o Ran 1 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## **RHAN II**

## 10 CYDWEITHREDU

Cyflwynodd y Cynghorydd R W Hughes yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cymryd rhan ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chymeradwyo i'r Arweinydd lofnodi'r datganiad o fwriad yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd Partneriaeth ar 03.02.2006. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod wrth ymestyn a chryfhau'r cydweithredu â chyrff eraill, yn unol â datganiad polisi Llywodraeth y Cynulliad, 'Creu'r Cysylltiadau'.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr fanylion am y gwaith cydweithredu a wnaed hyd yma a dywedodd y byddai adroddiad ar waith arall yn yr arfaeth yn cael ei ddarparu'r i'r Aelodau yn chwarterol ond ni fyddai'n cael ei drafod yn y cyfarfod.

Roedd y Cynghorydd E W Williams yn cefnogi'r adroddiad a dywedodd y gallai newid gwleidyddol effeithio ar gydweithredu. Roedd yn bwysig gwneud Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol o ba mor dda y mae awdurdodau Gogledd Cymru yn cydweithio.

Croesawyd yr adroddiad gan y Cynghorydd J Thompson Hill. Fodd bynnag, nid yw rheoli'r Ystad Amaethyddol yn swyddogaeth ar y cyd gyda Chyngor Sir y Fflint erbyn hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M LI Davies ynghylch y Fforwm Iaith Gymraeg, dywedodd y Cynghorydd S A Davies ei fod yn mynychu'r cyfarfodydd ac y byddai'n adrodd yn ôl ar y materion perthnasol drwy'r sianelau arferol.

### **PENDERFYNWYD** fod:

[a] *y Cabinet yn cymeradwyo cymryd rhan ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chymeradwyo i'r Arweinydd lofnodi'r datganiad o fwriad ynghylch cydweithredu.*

[b] *y Cabinet yn nodi'r wybodaeth am y prosiectau cydweithredu diweddar yn Atodiad 3 ac yn cefnogi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol yn Atodiad 4.*

## 11 CYNLLUN CYFALAF 2005-2006

Cyflwynodd y Cynghorydd P J Marfleet yr adroddiad i'r Aelodau nodi'r sefyllfa arfaethedig ddiweddaraf o ran elfen 2005/06 y cynllun cyfalaf. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried argymhell i'r Cyngor glustnodi'r balans o £1m o'r derbynion cyfalaf o werthu'r cyn faes parcio dros dro yn Rhuthun i gyllido Rhan 2 prosiect Ysgol Tir Morfa a defnyddio hyd at £500k o'r cyllid ar gyfer costau'r cynllun sydd wedi llithro i 2006-2007 i gyllido y cynnydd yng nghost y balans yng nghynllun 2005-2006. Hefyd gofynnwyd i'r Aelodau gytuno rhannu'r contract ar gyfer gwaith yng nghanolfan y Scala a dyfarnu contract ar gyfer y



gwaith dechreuol yn y flwyddyn gyfredol er mwyn galluogi hawlio cymorth grant un tro yn unig oddi wrth Awdurdod Datblygu Cymru.

Mynegodd y Cyngorydd Marfleet ei bryder ynghylch llithriad yn y cynllun a hefyd y cynnydd yng nghostau disgwylidig prosiect ysgol gynradd newydd Prestatyn. Anogodd ochr rheoli prosiect pob cynllun yn y dyfodol i gynnwys yr holl gostau perthnasol yn y ffigyrau a gyflwynir, a bod angen gwell dealltwriaeth rhwng ysgolion, y Gyfarwyddiaeth a'r Gwasanaethau Dylunio. Yn gyffredinol dylai prosiectau fod yn barod i'w dechrau, gynted ag y'i cymeradwyir. Serch hynny, roedd enghreifftiau o lwyddiant o ran cynllunio eitemau megis uwchraddio'r stoc dai a oedd wedi cadw at y gyllideb arfaethedig ac wedi ei gwblhau yn gynt na'r amserlen ddisgwylidig.

Dywedodd y Cyngorydd J Thompson Hill fod angen cynllun clir a bod angen cyfarwyddiadau clir ac amserol ar yr holl Adrannau i sicrhau bod cynlluniau ar sylfaen well.

Cytunodd y Cyngorydd E W Williams gyda'r Cyngorydd Marfleet a dywedodd fod gwerthuso cynlluniau yn broblem. Awgrymodd y dylid dyrannu arian i gynlluniau i ganiatáu cynnal gwaith cyn gwneud cais am fenthyca darbodus. O ran gwaith mewn ysgolion, atgoffodd yr Aelodau nad oedd contractwyr bob amser ar gael i gyflawni gwaith ar fyr rybudd.

Roedd y Cyngorydd P A Dobb yn cefnogi prosiect y Scala a gofynnodd am eglurhad o'r cymorth ariannol terfynol sy'n ofynnol. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor yn rhoi cymorth gwerth hyd at £1.9m i'r prosiect, ond bod Awdurdod Datblygu Cymru wedi dyfarnu £300m yn awr oedd yn golygu mai uchafswm y gost i'r Awdurdod fyddai £1.6m yn awr. Fodd bynnag, roedd Cyfeillion y Scala yn mynd ar drywydd grantiau eraill a dylai'r ffigwr terfynol fod yn llai na hynny.

Gan droi at brosiect Ysgol Gynradd Prestatyn, mynegodd ei phryder dybryd ynghylch y cynnydd yn y costau arfaethedig. Amlinellodd y Cyngorydd D Owens yr 'ychwanegiadau' a oedd wedi arwain at y cynnydd yma. Cytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Datblygu â sylwadau'r Aelodau fod blaen gynllunio yn hanfodol ar gyfer prosiectau. Cytunodd yr Aelodau y dylid diwygio'r bedwaredd frawddeg ym mharagraff 2.12 i nodi "Mae trafodaeth gyda'r tîrffediannwr yn parhau". Roedd wedi ei galonogi gan safbwynt y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes nad oedd unrhyw gynnydd arall yng ngostau'r prosiect yn debygol onibai bod newid mewn ddeddfwriaeth.

Cafwyd eglurhad ar y gorwariant ar ran cyllid cyffredinol y Cynllun Cyfalaf gan y Rheolwr Ariannol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd y byddai'n croesawu cyfle am adolygiad manwl o sut y llunir y Cynllun Cyfalaf. Dywedodd fod gymaint o brosiectau, fel y Parc Driff a'r cynllun tai, wedi eu cwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb ond bod angen am gynllunio mwy manwl dros sawl blwyddyn. Fodd bynnag, roedd y fframwaith ddeddfwriaethol yn cynyddu yn

flynyddol ac roedd caffael ac ymgynghori yn ychwanegu at gostau ac amserlen prosiectau hefyd.

Cytunodd y Prif Weithredwr fod prosiectau cyfalaf wedi eu cyflawni ar amser yn gyffredinol, ac yn unol â'r gyllideb, ond pwysleisiodd yr angen am flaen gynllunio.

Roedd y Cyngorydd E C Edwards yn cefnogi'r angen am flaen gynllunio ac ailstrwythuro'r cynllun, ac os yn bosibl bod â phrosiectau y gellid eu rhoi ar waith ar fyr rybudd.

Dywedodd y Cyngorydd P J Marfleet y dylid cynnwys unrhyw lithriad pellach, os rhagwelir hynny, yn yr adroddiad fis nesaf. Awgrymodd y dylai'r Tîm Gweithredu Corfforaethol ddarparu gwybodaeth am newid strwythur cynllunio cyfalaf i'w drafod yn anffurfiol gan y Cabinet yn fuan ym mis Ionawr 2006.

**PENDERFYNWYD** fod y Cabinet:

- [i] yn nodi sefyllfa elfen 2005/06 Cynllun Cyfalaf 3 Blynedd cytunedig y Cyngor*
- [ii] yn argymhell i'r Cyngor glustnodi'r balans o £1m o'r derbynion cyfalaf o werthu'r cyn faes parcio dros dro yn Rhuthun i rannol gyllido rhan 2 prosiect Tir Morfa*
- [iii] yn cytuno i ddefnyddio hyd at 500k o'r cyllid ar gyfer costau cynlluniau sydd wedi llithro i 2006/07 i dalu am y cynnydd yng nghost y balans yng nghynllun 2005/06*
- [iv] yn cytuno i rannu'r contract ar gyfer gwaith ar ganolfan y Scala a dyfarnu'r contract am y gwaith dechreuol yn y flwyddyn ariannol bresennol er mwyn galluogi hawlio cymorth grant un tro yn unig oddi wrth Awdurdod Datblygu Cymru.*

## **12 PRESTATYN: MAES PARCIO TAFARN OFFA**

Datganodd Mr I K Hearle, Clerc y Sir, fudd yn yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod.

Cyflwynodd y Cyngorydd J Thompson Hill yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo gwerthu maes parcio Tafarn Offa i'r parti a enwyd yn yr adroddiad.

Bu'r Aelodau'n trafod y cynigion ar gyfer y safle a'r prisiad yn fanwl. Yn dilyn cefnogaeth ddiweddar y Pwyllgor Rheoli Asedau i werthu'r safle, mae'r Adran Trafnidiaeth ac Isadeiledd yn dymuno cadw rhan o'r safle ar gyfer parcio i'r anabl. Cadarnhaodd y Rheolwr Ystadau a Phrisio fod y tir o fewn y ffin datblygu ond nad oedd wedi ei ddynodi ar gyfer unrhyw ddefnydd penodol ac nad oedd yn ymarferol ei gyfyngu i un defnydd penodol. Roedd y broses o brisio'r tir wedi ei gyflawni gan briswyr allanol.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd ynghylch sut y gellid diogelu safle'r Awdurdod o ran defnydd y safle yn y pen draws, a bod y prisiad yn un cadarn.

**PENDERFYNWYD** fod y Cabinet, yn amodol ar yr uchod, yn cymeradwyo gwerthu maes parcio Tafarn Offa i'r parti a enwyd yn yr adroddiad, ar delerau i'w cytuno gan Glerc y Sir a'r Pennaeth Gwasanaethau Datblygu.

Gorffennodd y cyfarfod am 1.35 p.m.

**ADRODDIAD I'R CABINET**

**ADRODDIAD GAN:** Y CYNGHORYDD JULIAN THOMPSON-HILL, AELOD ARWEINIOL DROS EIDDO A RHEOLI ASEDAU

**DYDDIAD:** 17 IONAWR 2006

**PWNC:** RHAGLEN GWAREDU

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Cymeradwyo proses i resymoli sail asedau'r Cyngor yn unol ag anghenion darparu gwasanaeth.

**2. Y RHESYMAU DROS GEISIO'R PENDERFYNIAD**

2.1 Penderfyniad y Cyngor ar 20fed Medi yn gofyn am restr gwaredu.

2.2 Ers penderfyniad y Cyngor, cynhaliwyd ymarfer eang gan y Gwasanaethau Datblygu i nodi safleoedd sy'n weddill i anghenion. Hyd yn hyn mae cyfanswm o 55 safle ac adeilad wedi'u nodi fel rhai y dylid eu harchwilio ymhellach. Nid yw'r safleoedd hyn wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn gan nad ymgynghorwyd yn llawn gyda'r aelodau na'r gwasanaethau yn eu cylch.

2.3 Ychydig o amser sydd yn yr amserlen a gynigir gan y Cyngor ar gyfer ymgynghori gyda'r aelodau a'r darparwyr gwasanaeth ynghylch anghenion a chynlluniau'r gwasanaeth, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

2.4 Rydym angen rhaglen gadarn i herio'r cynlluniau rheoli asedau, er mwyn nodi'r cyfleoedd ar gyfer rhesymoli'n hystâd a'i gosod ar sail gynaliadwy yn y man. Bydd hynny'n gofyn am waredu er mwyn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf i helpu i flaenoriaethu buddsoddiadau cyfalaf a lleihau'r ôl groniad o gynnal a chadw.

**2.5 Y BROSES ARFAETHEDIG**

Sefydlodd Sir Ddinbych broses Rheoli Asedau sydd wedi nodi'r rhan fwyaf o asedau eiddo'r Cyngor ac mae wedi cysylltu'r asedau hyn gyda darpariaeth gwasanaeth trwy Gynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth. Mae bas data rhagorol yn bodoli felly i ystyried o'r newydd ddulliau mwy effeithiol i'r Cyngor fanteisio ar ei asedau.

Yr hyn a gynhyrchwyd yn bennaf gan y Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth yw rhestr o brosiectau posibl a nodwyd gan wasanaethau er mwyn gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth o'u swyddfeydd presennol. Ni chafwyd proses o herio allanol o ddifrif ar unrhyw wasanaeth i archwilio a ellid rhesymoli ei hanghenion am swyddfeydd yn fewnol neu rhwng gwasanaethau. Yr her hon yw'r cam nesaf yn natblygiad y broses rheoli asedau. Byddai unrhyw broses rhesymoli'n cadw gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth fel ei

hystyriaeth ganolog ond byddai'n ceisio gwneud hynny'n unol â dyhead y llywodraeth, a ddyfynnir yn aml mewn canllawiau rheoli asedau ar gyfer awdurdodau lleol, y dylid cael 'llai, ond gwell adeiladau'. Byddai'n targedu:

- Adeiladau sy'n eiddo'r awdurdod oherwydd damwain hanesyddol yn hytrach nag am fod eu hangen gan y gwasanaeth
- Adeiladau gwael eithriadol o ran addasrwydd a / neu gyflwr
- Adeiladau gwael o ran lleoliad neu'n cael eu defnyddio'n wael
- Adeiladau nad ydynt yn hanfodol i strategaeth y gwasanaeth
- Y posibilrwydd o feddiannu adeiladau ar y cyd

Argymhellir y dylid cynnal yr adolygiad gan y Cabinet yn gweithredu fel Gweithgor. Mae'r her o resymoli ein sail asedau'n un fawr a strategol sy'n haeddu mewnbwn oddi wrth y Cabinet llawn.

Er bydd yr adolygiad yn cynnwys pob ased, canolbwyntir yn benodol ar y meysydd canlynol:

- Adolygiad o swyddfeydd
- Adolygiad o neuaddau tref
- Ail leoli rhandiroedd
- Adolygiad o feysydd parcio
- Adolygiad o'r Ystâd Amaethyddol
- Adolygiad o Barciau Gwledig a Pharciau a Chaeau Chwarae
- Adolygiad o Ganolfannau Ieuenctid sy'n sefyll ar eu pen eu hunain
- Adolygiad o dir sydd, o bosibl, yn weddill i anghenion mewn ysgolion unigol
- Adolygiad o'r holl eiddo sydd wedi'i brydlesu i drydydd parti
- Ymestyn trefniadau prydlesi trydydd parti
- Adolygiad o dir amrywiol sy'n cael ei ddal yn gorfforaethol
- Adolygiad o ddepos priffyrdd a chwareli

(Sefydlwyd gweithgor gan y Pwyllgor Rheoli Asedau, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r pwyllgorau archwilio perthnasol, i adolygu'r ystadau amaethyddol. Cyflwynir ei argymhellion i'r Gweithgor Cabinet. Ni fydd y Gweithgor Cabinet yn adolygu adeiladau ysgolion sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan y bydd hynny'n cael ei wneud gan y broses moderneiddio addysg).

Gofynnir i Grwpiau Aelodau Ardal y Cyngor Sir adolygu'r holl asedau yn eu hardaloedd, gan dalu sylw i'r agenda cydweithio a hefyd dderbyn sylwadau priodol oddi wrth y Gweithgor Cabinet. Eir ag adroddiadau oddi wrth y Grŵp Aelodau Ardal hefyd at y Gweithgor Cabinet.

Yn dilyn y cyfnod hwn, paratwir adroddiadau ffurfiol ar gyfer penderfyniadau gan aelodau (ar wahân i unrhyw benderfyniadau y gall swyddogion eu cymryd o dan hawliau dirprwyedig). Yn dibynnu ar natur y penderfyniad, bydd hyn yn gyfrifoldeb yr aelod arweiniol, y Pwyllgor Rheoli Asedau neu'r Cabinet llawn yn unol â'r cynllun dirprwyo a gweithdrefnau presennol y Cyngor ynghylch ymgynghori.

Cynhelir yr adolygiad yn ystod 2006 a bydd yn cael ei gwblhau ddim hwyrach na mis Tachwedd 2006. Ble gellir penderfynu ynghylch rhai asedau ar eu pen eu hunain gan nad ydynt yn effeithio ar ofynion gwasanaethau eraill, eir ymlaen â'r gwaith gynted â phosibl o fewn yr amserlen hon.

### **Y Criteria a'r Data i'w defnyddio:**

Er mwyn hyrwyddo'r broses herio, bydd y Gwasanaethau Datblygu'n gyfrifol am ddarparu data ar:

- Cyflwr (yn dibynnu ar gyllid)
- Addasrwydd
- Digonolrwydd (o leoedd o fewn pob eiddo)
- Deddf Gwahaniaethu Ar Sail Anabledd
- Marchnadadwyedd

Bydd gwasanaethau a ffynonellau eraill o fewn yr awdurdod yn darparu data ar:

- Ddigonolrwydd (ar draws y Sir)
- Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth
- Fforddiadwyedd
- Cyfyngiadau / cyfleoedd cyfreithiol
- Cyfyngiadau / cyfleoedd Cynllunio, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol
- Cyfyngiadau statudol

### **3.0 YR HAWL I BENDERFYNU**

3.1 Mae Adran 123 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi hawl i waredu tir.

### **4.0 GOBLYGIADAU COST**

### **5.0 DATGANIAD Y RHEOLWR ARIANNOL**

5.1 Mae'n debyg y daw cynigion cost effeithiol ar gyfer gwella effeithiolrwydd o'r ymarfer hwn a fydd yn herio lleoliadau presennol swyddfeydd ac adnoddau eraill o gwmpas y Sir. Dylai atebion arloesol godi wrth ystyried y sail asedau presennol yn fwy strategol a nodi nid yn unig eiddo sy'n cael ei dan ddefnyddio neu sydd mewn cyflwr gwael ond hefyd gyfleoedd i waredu safleoedd gwerthfawr, er y byddai hynny'n peri aflonyddwch dros dro i ddeiliaid.

### **6.0 YR YMGYNGHORI A WNAED**

6.1 Paratowyd yr adroddiad mewn ymateb i benderfyniad y cyngor sydd wedi gofyn am broses eithriadol o gyflym o nodi rhestr gwaredu. Cynhaliwyd y broses trwy ohebiaeth gyda'r aelodau arweiniol, penaethiaid gwasanaeth ac aelodau lleol drwy ofyn iddynt nodi eiddo ar gyfer gwaredu. Ychydig o amser a roddwyd i nodi safleoedd ac mae diffyg amser ar gyfer ymgynghori ynghylch y safleoedd a nodwyd yn wendid. O ganlyniad mae argymhellion yr adroddiad hwn yn darparu ar gyfer proses eang o adolygu a fydd yn golygu

ymgyngori gyda gwasanaethau'r Cyngor, aelodau arweiniol ac aelodau'r Cyngor yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ymgynghorwyd ynghylch yr adroddiad hwn â'r Cabinet yn anffurfiol a chyda'r tîm rheoli corfforaethol ac maen nhw'n cefnogi'r argymhellion sydd hefyd wedi derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Rheoli Asedau.

## **7.0 GOBLYGIADAU I FEYSYDD POLISI ERAILL GAN GYNNWYS CORFFORAETHOL**

**7.1** Mae defnydd effeithiol ac effeithlon o asedau'n gallu lleihau costau cyffredinol y Cyngor, creu adnoddau cyfalaf newydd a chyfrannu tuag at amcanion Rheoli Asedau'r Cyngor.

## **8.0 CYNLLUN GWEITHREDU**

**8.1** Mae'r wybodaeth wedi'i gynnwys yng nghorff yr adroddiad. Gareth Evans yw'r swyddog sy'n delio gyda'r adroddiad hwn.

Cynhyrchu adroddiadau ar gyfer y Gweithgor Cabinet a Grwpiau Aelodau.	GE + JTH	Pob mis yn ystod 2006
Adroddiadau i'r aelod arweiniol, Pwyllgor Rheoli Asedau, Cabinet fel bo'n briodol	GE	Erbyn diwedd 2006

## **9.0 ARGYMHELLION**

**9.1** Gofynnir i Grwpiau Aelodau Ardal y Cyngor Sir adolygu'r holl asedau yn eu hardaloedd, gan dalu sylw i'r agenda cydweithio a hefyd dderbyn sylwadau priodol oddi wrth y Gweithgor Cabinet. Eir adroddiadau oddi wrth y Grŵp Aelodau Ardal hefyd at y Gweithgor Cabinet.

**9.2** Fod Aelodau'r Cabinet yn cyfarfod fel Gweithgor i adolygu holl asedau'r Cyngor Sir a nodi'r dewisiadau i gynhyrchu portffolio o asedau mwy cynaliadwy gan gynnwys materion ynghylch cydweithio.

**9.3** Dylid paratoi adroddiadau manwl ar gyfer penderfynu gan yr Aelod Arweiniol, y Pwyllgor Rheoli Asedau neu'r Cabinet fel bo'n briodol, yn dibynnu ar y penderfyniadau a geisir.

**ADRODDIAD I'R CABINET**

**AELOD CABINET:** Y Cyngorydd Pauline Dobb, Aelod Arweiniol Dros Iechyd a Lles

**DYDDIAD:** 17 Ionawr 2006

**PWNC:** Cyllideb Y Cyfrif Refeniw Tai 2004 / 2005

**1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Nodi canlyniadau ariannol (refeniw a chyfalaf) y Cyfrif Refeniw Tai a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.

**2 Y RHESWM DROS GEISIO'R PENDERFYNIAD**

Mae'n rhaid gweithredu strategaethau'r gyllideb a gytunwyd gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.

**3 YR HAWL I BENDERFYNU**

Deddf Tai 1985, Rhan II.

**4 GOBLYGIADAU COST**

Dengys y rhagolygon ar ddiwedd mis Rhagfyr 2005 y gallai fod tanwariant ar ddiwedd blwyddyn o £247,000 (Atodiad 1) o gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig – mae hynny'r un fath ag adroddwyd ar ddiwedd mis Tachwedd. Newidiadau bychain yn unig a gafwyd yn ystod y mis diwethaf.

Mae arbedion eiddo gwag mewn Rhenti (£47k) a Goruchwyliaeth a Rheolaeth [Arbennig] (£1k) yn cael eu gwrthbwyntio'n rhannol gan gostau staff asiantaeth ychwanegol (llanw dros absenoldeb mamolaeth) (£16k) a gorwariannau bychain eraill (£21k) mewn Goruchwyliaeth a Rheolaeth [Cyffredinol].

Rhagwelir y bydd gwariant ar Drwsiau a Chynnal a Chadw £63k yn is na'r amcangyfrif diwygiedig. Mae hyn oherwydd gostyngiad cyffredinol mewn adrodd ar atgyweirio, llai o waith ar eiddo gwag ac effaith bychan y gwaith cyfalaf mawr a wneir eleni (£173,000) gan y rhagwelir y bydd £110,000 ychwanegol yn cael ei wario ar systemau gwres canolog sydd wedi methu'r arolygon gwasanaethu cyfarpar nwy.

Mae'r cynnydd mewn Taliadau Dyleb (£20k) i'w briodoli i lai o dderbyniadau cyfalaf na a amcanbrisiwyd ar gyfer y flwyddyn ~ sy'n golygu y bydd llai o ddyled yn cael ei diddymu yn ystod y flwyddyn.

Mae'r cynnydd yn y taliad Sybsidi Cyfrif Refeniw Tai i Lywodraeth Cynulliad Cymru (£10k) oherwydd bod nifer y tai'n uwch (o ganlyniad i lai o werthiannau



Hawl i Brynu). Mae'r rhan fwyaf o gydrannau sybsidi'n cael eu cyfrifo 'fesul anheddle'.

Ni fydd angen y cyfraniad a gyllidwyd (£50k) tuag at Ddarparu ar gyfer Dyledion Drwg eleni gan fod dyledion rhent i'w gweld yn dal i ostwng.

Rhagwelir y bydd incwm rhent yn £148k (1.8%) yn uwch na'r amcangyfrif diwygiedig. Mae hyn oherwydd bod llai o dai gwag a mwy o aneddleoedd (llai na'r rhagolygon o werthiannau Hawl i Brynu)

Gellir gweld y cynnydd gyda chynlluniau cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai yn Atodiad 2. Mae gwaith wedi dechrau ar bob cynllun erbyn hyn ac mae'r gwariant hyd yma bron yn £3 miliwn. . Mae'r £600k o lithriad ar welliannau mawr oherwydd bod y gwaith wedi dechrau ychydig o wythnosau'n hwyrach nag a drefnwyd yn wreiddiol – bydd y llithriad, fodd bynnag, yn cael ei wario o fewn ychydig o wythnosau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae rhai taliadau cyfrif terfynol (ar waith cyn 2005 / 06) yn uwch nag a amcangyfrifwyd yn wreiddiol ac mae'r rhagolwg yn awr £278k yn uwch na'r amcangyfrif diwygiedig. Mae'r gontract gwres canolog, fodd bynnag, £160,000 yn is nag a gyllidebwyd. Disgwylir y gwireddir yr amcangyfrifon diweddaraf yn Atodiad 2.

## **5 DATGANIAD Y RHEOLWR ARIANNOL**

Mae'r gwelliant yn y sefyllfa gyllidebol gyffredinol i'w groesawu ond, bydd rhaid aros yn wylidwrus wrth reoli cyllidebau er mwyn sicrhau y sicrheir y gweddillion ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

## **6 YR YMGYNGHORI A WNAED**

Bydd raid i Aelodau Arweiniol y Cabinet ymgynghori gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth i fonitro Cyllid Refeniw Tai yn 2005 / 06.

## **7 GOBLYGIADAU I FEYSYDD POLISI ERAILL GAN GYNNWYS CORFFORAETHOL**

Mae faint o gyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau ynghyd â'r perfformiad cyllidebol yn effeithio ar holl wasanaethau'r Cyngor.

## **8 CYNLLUN GWEITHREDU**

Dylai Pennaeth y Gwasanaethau Tai a'r Uwch Gyfrifydd Rheoli fonitro'r Cyfrif Refeniw Tai yn fisol ac adrodd i'r Cabinet er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion statudol ac â'r gyllideb.

## **9 ARGYMHELLIAD**

Nodi canlyniadau ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (refeniw a chyfalaf) y Cyfrif Refeniw Tai a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.

**HOUSING REVENUE ACCOUNT**

<b>2004/05</b>		<b>2005/06</b>		
<b>Actual</b>		<b>Revised</b>	<b>Forecast</b>	<b>Variance</b>
<b>£</b>		<b>Budget</b>	<b>Out-turn</b>	<b>to</b>
		<b>£</b>	<b>£</b>	<b>Budget</b>
				<b>£</b>
<b><u>EXPENDITURE</u></b>				
1,092,024	Supervision & Management - General	1,142,595	1,180,101	37,506
205,881	Supervision & Management - Special	213,009	211,898	-1,111
131,271	Welfare Services	127,445	126,750	-695
384,881	Rents	437,328	390,074	-47,254
2,174,227	Repairs and Maintenance	2,662,610	2,600,000	-62,610
3,988,284	Total - Management and Maintenance	4,582,987	4,508,823	-74,164
57,489	Rent Rebates	28,745	28,745	0
1,076,385	Debt Charges	902,596	923,000	20,404
0	C.E.R.A.	326,216	326,216	0
2,584,435	Subsidy	2,681,622	2,691,933	10,311
-169,217	Provision for Bad Debts	50,000	0	-50,000
<b>7,537,376</b>	<b>Total Expenditure</b>	<b>8,572,166</b>	<b>8,478,717</b>	<b>-93,449</b>
<b><u>INCOME</u></b>				
8,319,302	Rents (net of voids)	8,378,032	8,525,635	147,603
88,733	Garages	91,088	93,680	2,592
120,921	Interest	141,547	145,408	3,861
<b>8,528,956</b>	<b>Total Income</b>	<b>8,610,667</b>	<b>8,764,723</b>	<b>154,056</b>
<b>Surplus / Deficit (-) for the Year:</b>				
<b>665,364</b>	<b>General Balances</b>	<b>364,717</b>	<b>612,222</b>	<b>247,505</b>
<b>326,216</b>	<b>Earmarked Balances</b>	<b>-326,216</b>	<b>-326,216</b>	<b>0</b>
662,070	Balance as at start of year ~ General	1,327,434	1,327,434	0
0	Balance as at start of year ~ Earmarked	326,216	326,216	0
1,327,434	Balance as at end of year ~ General	1,692,151	1,939,656	247,505
326,216	Balance as at end of year ~ Earmarked	0	0	0

## Appendix 2

### Housing Revenue Account Capital ~ 2005/06

<b>Project Description</b>	<b>Revised Estimate £</b>	<b>Actual and Committed £</b>	<b>Latest Forecast £</b>	<b>Variance to Estimate £</b>
Housing Repair Work (Pre 2005/06 works)	522,000	738,120	800,000	278,000
Environmental Improvements	347,000	139,128	400,000	53,000
Major Improvements ~ All groups	3,600,000	891,946	3,000,000	-600,000
DFG ~ Council Properties	100,000	94,017	100,000	0
Window Replacements	2,976,000	719,419	2,976,000	0
Central Heating Contract	980,000	414,451	820,000	-160,000
<b>Total</b>	<b><u>8,525,000</u></b>	<b><u>2,997,081</u></b>	<b><u>8,096,000</u></b>	<b><u>-429,000</u></b>
<b>Funding:</b>				
Major Repairs Allowance	2,400,000	1,219,105	2,400,000	0
Usable Capital Receipts	2,431,000		2,476,000	45,000
Prudential Borrowing	3,368,000		2,894,000	-474,000
Financed from Revenue (CERA)	326,000	326,000	326,000	0
<b>Total</b>	<b><u>8,525,000</u></b>	<b><u>1,545,105</u></b>	<b><u>8,096,000</u></b>	<b><u>-429,000</u></b>

**ADRODDIAD I'R CABINET**

**AELOD CABINET:** Y Cynghorydd Pauline Dobb, Aelod Arweiniol Dros Iechyd a Lles

**DYDDIAD:** 17 Ionawr 2006

**PWNC:** Cyfrif Refeniw Tai a Chyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2006 / 07

**1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

- 1.1 Mabwysiadu Cyllideb Cyfrif Refeniw Tai a'r Rhaglen Gyfalaf [Atodiad 3] ar gyfer 2006 – 2007.
- 1.2 Cynyddu rhenti aneddeleoedd y Cyngor yn unol ag Adran 2.2.5 y Polisi Pennu Rhent (o 5.5% ar gyfartaledd) o ddydd Llun 3ydd Ebrill 2006.
- 1.3 Cynyddu rhenti garejys y Cyngor gan 20c (6.2%) yr wythnos o ddydd Llun 3ydd Ebrill 2006.

**2 Y RHESWM DROS GEISIO'R PENDERFYNIAD**

2.1.1 Mae'n rhaid gosod cyllidebau a lefelau rhent yn ôl statud cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

2.1.2 Rhaid drafftio'r gyllideb hon cyn gwybod canlyniad terfynol unrhyw benderfyniad ar y dewisiadau ynghylch stoc tai'r Cyngor ar gyfer y dyfodol. Yn amlwg bydd y stoc yn aros gyda'r Cyngor yn ystod 2006 / 07 a chynigir cyllideb blwyddyn lawn nad yw'n niweidiol i naill ai'r dewis o Gadw'r Stoc gyda Benthycia Darbodus neu Drosglwyddo'r Stoc.

2.2 Y Cyfrif Refeniw Tai

2.2.1 Ceir manylion y rhagolygon diweddaraf yn Atodiad 1 yn unol â'r adroddiad monitro misol. Rhagwelir y bydd y balansau ar ddiwedd y flwyddyn yn £1,940,000

2.2.2 Ceir manylion hefyd ynghylch y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2006 / 07 yn Atodiad 1. Amcangyfrifir y gyllideb ar y seiliau canlynol:

- Bydd chwyddiant cyffredinol yn 2.5%
- Mae'r codiadau cyflog gwybyddus (ble bo'n ddyledus) wedi'u cynnwys;
- Y strwythur staffio newydd a weithredir yn ddiweddar;
- 49 o Werthiannau Hawl i Brynu yn 2006 / 07;
- Penderfyniadau Sybsidi Cyfrif Refeniw Tai Drafft;
- Benthycia digefnogaeth (gan Sybsidi Cyfrif Refeniw Tai) o £4.6 miliwn (gweler Cyfalaf);

- Atgyweirio a Chynnal a Chadw'n cael eu cynyddu yn ôl chwyddiant (ar sail 'fesul anheddle') ac yna eu gostwng gan £100,000 (yn unol â'r Cynllun Busnes Stoc Tai);
- Cyfartaledd cynnydd rhent o 5.50%

### 2.2.3 Derbyniwyd y Penderfyniadau Sybsidi Cyfrif Refeniw Tai drafft ym mis Rhagfyr 2005:

- Mae lwfansau Rheoli a Chynnal a Chadw wedi cynyddu i £1,545 yr anheddle (cynnydd o 4.75% dros 2005 / 06).
- Rhent Enwol o £49.25 yr anheddle'r wythnos (cynnydd o 4.48% dros 2004 / 05).

### 2.2.4 Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y taliad Sybsidi Cyfrif Refeniw Tai i Lywodraeth Cynulliad Cymru am 2006 / 07 yn £2,978,000. Disgwylir y penderfyniadau terfynol yn hwyr fis Ionawr 2006 ond, yn seiliedig ar brofiad blynyddoedd blaenorol, disgwylir mai ychydig iawn o newidiadau a fydd o gymharu â'r penderfyniadau drafft.

### 2.2.5 Bwriedir cynyddu rhenti gan 5.50% hyd at gyfartaledd o £49.74 yr wythnos yn unol â'r Cynllun Busnes Stoc Tai. Mae hynny'n uwch na chwyddiant ac yn uwch na'r cynnydd yn y Rhenti Enwol ond mae angen hynny o dan y Cynllun Busnes Stoc Tai i dalu am y buddsoddiad cyfalaf ychwanegol. Dylai rhenti symud tuag at Renti Targed yn seiliedig ar Renti Enwol sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, wedi'u dyrannu'n yn gyfrannog yn ôl maint yr anheddle.

